Diogelwch Sylfaenol



Pan fyddwn yn ei ddefnyddio'n gywir, mae ocsigen yn ddiogel. Ond mae'n rhaid i chi gymryd ychydig o gyngor sylfaenol am ddiogelwch:

Peidiwch ag ysmygu!

Peidiwch â gadael i unrhyw un ysmygu wrth eich ymyl!

Bydd ysmygu yn gwaethygu eich cyflwr ac mae'n beryglus pan fyddwch yn defnyddio ocsigen. Mae defnyddiau'n llosgi'n gryfach mewn ocsigen nag mewn aer.

Peidiwch â mynd yn agos at fflamau agored!

Dylech gadw bob offer ocsigen yn ddigon pell oddi wrth fflamau agored e.e. canhwyllau pen-blwydd, tanau agored a phoptai nwy.

Cadwch eich offer yn ddigon pell oddi wrth bethau poeth!

Nid ym ocsigen yn ffrwydro ond mae'n helpu tanau i losgi'n gryfach. Gwnewch yn siwr eich bod yn cadw eich silindrau ocsigen yn ddigon pell oddi wrth danau, poptai, gwresogyddion, ac ati. Dyma'r pellter a argymhellwn ar gyfer offer therapi ocsigen: tanau agored 3m; tanau wedi cau 1.5m.

Diffoddwch yr offer!

Diffoddwch y cylenwad ocsigen os nad ydych yn ei ddefnyddio. Pan fyddwch yn defnyddio eich ocsigen peidiwch â gadael eich mwgwd neu ganiwla ar eich glin neu'n gorwedd ar y gwely neu'r gadair am unrhyw gyfnod o amser. Gallai ocsigen gynyddu yn y defnydd a'i wneud yn fwy fflamadwy.



Byddwch yn effro!

Os ydych yn defnyddio crynhöwr (concentrator) ocsigen, cofiwch fod y peiriant yn puro'r aer sydd o'ch cwmpas. Os byddwch yn defnyddio hwn wrth ymyl gwresogydd neu dân, efallai na fydd yn tynnu'r tarthau sydd yn yr awyr yn gyfangwbl.

Rhag ofn!

Cadwch ddiffoddwr tân aml-bwrpas yn eich cartref a gosodwch larwm myg. Rydym yn dweud wrth y Frigâd Dân eich bod yn defnyddio ocsigen yn eich cartref. Efallai y byddai'n syniad da i chi ddweud wrth eich brigâd dân leol rhag ofn y bydd angen i chi eu ffonio nhw.

Dim olew!

Peidiwch byth â defnyddio olew neu saim i iro tapiau new falfiau ocsigen. Peidiwch byth â defnyddio Vaseline neu hufen neu gel sail olew ar eich croen. Os bydd rhywbeth o'i le ar eich offer cysylltwch ag Air Products Heathcare os gwelwch yn dda.

Cadwch y tiwbiau'n rhydd!

Gwnewch yn siwr nad yw'r tiwbiau'n cael eu dal a'u gwasgu oherwydd bydd hyn yn rhwystro llif yr ocsigen. Dylech gymryd gofal arbennig gyda drysau, fframiau cot a chadeiriau uchel gyda phlant ifanc iawn.

Pan fo'r trydan yn methu

Os bydd problemau gyda'r cyflenwad ynni, ni fydd eich crynhöwr ocsigen yn gweithio. Dylech ddefnyddio eich silindr ocsigen wrth gefn nes y daw'r ynni yn ei ôl. Cysylltwch â ni i gael silindr newydd pan fydd $^{1}/_{3}$ o'r ocsigen ar ôl ynddo.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am ddiogelwch, ffoniwch ni ar 0800 373580

Air Products Healthcare
2 Millennium Gate, Westmere Drive, Crewe, Cheshire, CW1 6AP
Freephone 0800 373580 Freefax 0800 214709

tell me more
www.airproducs.co.uk/homecare

© Air Products and Chemicals, Inc. 2009 365-06-011-CYMRU